**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**GORCHYMYN GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD — Y FENNI (A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON — MAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (A4060), CEFNFFORDD CAERDYDD — GLANCONWY (A470) (FFYRDD CYSYLLTU) 1999, (GILWERN I FRYN-MAWR) (DIWYGIO) 2014**

**A**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD I LANCONWY (YR A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (GILWERN I FRYN-MAWR) (FFYRDD YMYL) 2014**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y Gorchmynion canlynol:-

1. Gorchymyn o dan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i ddiwygio Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd — Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon — Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd — Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (O.S. 1999/2720) ("Gorchymyn 1999") mewn cysylltiad â'r darn rhwng Gilwern a Bryn-mawr ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac yn Sir Fynwy, a adwaenir fel Adran 2, drwy

a. diwygio llinell Adran 2 fel y dangosir mewn newidiadau i'r planiau a adneuwyd, gan gynnwys newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cyffyrdd;

b. ychwanegu at, diwygio a hepgor o'r disgrifiadau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael sydd i'w darparu, mewn perthynas ag Atodlen 2;

c. ychwanegu disgrifiad o ffordd gysylltu sydd i'w darparu, mewn perthynas ag Atodlen 3; a

d. ychwanegu disgrifiad o'r darn o gefnffordd a fyddai'n peidio â bod yn

gefnffordd yn unol â Gorchymyn 1999; a

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn awdurdodi Gweinidogion Cymru:-

(a) i wneud gwaith i wella priffyrdd;
(b) i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
(c) i adeiladu priffyrdd newydd;
(d) i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd;
(e) i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd;

i gau priffyrdd dros dro; ac
i ddarparu priffordd dros dro

rhwng Gilwern a Bryn-mawr ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac yn Sir Fynwy; a

darparu ar gyfer trosglwyddo'r priffyrdd newydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Sir Fynwy o'r dyddiad yr hysbysir y Cynghorau gan Lywodraeth Cymru fod y priffyrdd wedi eu cwblhau a'u bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

Gellir Archwilio copïau o'r Gorchmynion, a Gorchymyn 1999, a'r planiau cysylltiedig yn ddi-dâl yn ystod unrhyw oriau rhesymol o 16 Hydref 2014 tan 27 Tachwedd 2014, neu o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa bynnag gyfnod a ddaw i ben ddiwethaf, yn y swyddfeydd canlynol:

Y Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu LD3 7HP

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Swyddfeydd y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy NP23 6XB;

Llyfrgell Brynmawr, Sgwâr y Farchnad, Brynmawr NP23 4AJ;

Cyngor Sir Fynwy, Siop Un Stop, Neuadd y Farchnad, Cross Street, Y Fenni NP7 5HD.

Bydd y dogfennau hefyd ar gael yng Nghyngor

Cymuned Llanelli, Canolfan Gymunedol Gilwern, Common Road, Gilwern NP7 0DS o ddydd Llun i ddydd Mercher rhwng 9.30 a 12.30.

Mae'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd — Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon — Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd — Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, (Gilwern i Fryn-mawr) (Diwygio) 2014', OS 2014 Rhif 2716 (Cy. 272), wedi ei gyhoeddi gan TSO (Y Llyfrfa) a gellir prynu copïau ohono ar lein oddi wrth www.tsoshop.co.uk neu TSO @Blackwell; www.tso.co.uk/contact/bookshops/agents/cardiff/ ac Asiantau Achrededig eraill.

Gellir cael copïau o'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd — Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon — Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd — Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Gilwern I Fryn-mawr) (Ffyrdd Ymyl) 2014' gan Lywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Os bydd unrhyw un sydd wedi'i dramgwyddo gan y Gorchymyn Diwygio neu'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl am gwestiynu eu dilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddynt ar y seiliau canlynol, sef:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu
b. na chydymffurfiwyd â rhyw ofyniad yn y Ddeddf neu'r rheoliadau y gwnaethpwyd y gorchmynion hyn yn unol â hwynt,

gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i'r diben hwnnw i'r Uchel Lys ymhen 6 wythnos ar ôl iddynt ddod yn weithredol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell a'r Hysbysiad yn http://cymru.gov.uk/?lang=cy (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Llinell y Ddeddf Priffyrdd', '2014').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Hysbysiad yn http://cymru.gov.uk/?lang=cy (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth',

‘Offerynnau Anstatudol’, ‘Trafnidiaeth, Cymru’, ‘Ymylon Ffyrdd a Gorchmynion Prynu Gorfodol yn unol â’r Ddeddf Priffyrdd’, ‘2014’).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**PRIFFYRDD CYMRU**

**2014 Rhif**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I’R FENNI (YR A465) (DEUOLI O’R FENNI I HIRWAUN A’R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I’R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I’R DWYRAIN O DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD I LANCONWY (YR A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (GILWERN I FRYN-MAWR) (FFYRDD YMYL) 2014**

*Gwnaed* *06 Hydref 2014*

*Yn dod i rym* *16 Hydref 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1) a phob pŵer galluogi arall (2) yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Y Gweithiau Awdurdodedig**

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu hawdurdodi mewn perthynas â’r gefnffordd rhwng Gilwern a Brynmawr, ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Sir Fynwy—

(a) i wella priffyrdd;
(b) i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;

(c) i adeiladu priffyrdd newydd;
(d) i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd;
(e) i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd;
(f) i adeiladu priffordd dros dro ac
(g) i gau dros dro ddarnau o briffordd.

2. (1) Mae'r gweithiau a awdurdodwyd gan Erthygl 1 wedi eu nodi yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn sy'n dwyn y rhifau 1 i 6 ac fe'u dangosir ar y planiau safle sy'n dwyn y rhifau 1, 1A, 2, 3, 4, 5 a 6 ac sydd wedi eu cynnwys yn y plan a adneuwyd sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn yn y modd a ganlyn:-

(a) enwir y priffyrdd sydd i'w gwella a dangosir hwy â llinellau rhesog;

(b) disgrifir y darnau a'r rhannau o briffordd sydd i'w cau (bras amcan yn unig yw pob pellter a nodir) ac fe'u dangosir â llinellau rhesog du a gwyn;

(c) dynodir priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu drwy ddefnyddio, yn yr Atodlen, y llythrennau cyfeirnod a roddir i'r priffyrdd newydd hynny ar y plan a adneuwyd. Pan fo priffordd newydd i'w hadeiladu mewn cysylltiad â chau darn neu ran o briffordd a ddisgrifir mewn Atodlen, rhoddir y llythyren gyfeirnod briodol gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw neu'r rhan honno, a phan fo priffordd newydd i fod yn llwybr troed neu'n llwybr beicio, bydd y geiriau "llwybr troed" neu "llwybr beiciau" (yn ôl y digwydd) yn ymddangos mewn cromfachau o dan y llythyren gyfeirnod. Dangosir â dotwaith lwybrau'r priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu a dangosir llinell ganol pob priffordd newydd â llinell ddu ddi-dor;

(d) disgrifir y darnau o fynedfeydd preifat sydd i'w cau (bras amcan yn unig yw pob pellter); rhoddir iddynt y rhifau cyfeirnod a ddefnyddir ar y plan a adneuwyd a dangosir hwy â bandiau duon;

(e) yn yr Atodlen, nodir y mynedfeydd newydd sydd i'w darparu gan ddefnyddio'r rhifau a'r llythrennau cyfeirnod a roddir i'r mynedfeydd newydd hynny ar y plan a adneuwyd.

Pan fo mynedfa newydd i'w darparu mewn cysylltiad â chau darn o fynedfa breifat a ddisgrifir yn yr Atodlen honno, rhoddir y rhif cyfeirnod a'r llythyren gyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw. Dangosir llwybrau mynedfeydd preifat newydd â llinellau lletraws;

(f) dangosir y darn o briffordd sydd i'w ddarparu dros dro â llinellau main rhesog onglog a dangosir llinell ganol y briffordd dros dro â llinell ddu ddi-dor, ac

(g) disgrifir darnau o briffordd sydd i'w cau dros dro (bras amcan yn unig yw pob pellter) a dangosir hwy â llinellau trwm rhesog onglog.

(2) Mae'r plan a adneuwyd yn marcio lleoliad y gefnffordd a llwybr y gefnffordd newydd mewn perthynas â'r gweithiau awdurdodedig a ddangosir ar y plan a adneuwyd.

(3) Pan fo rhan o briffordd sydd i'w chau yn cyd-ddigwydd â llwybr gwaith awdurdodedig sy'n briffordd newydd neu'n fynedfa newydd, ni ddangosir y rhan honno â llinellau rhesog du a gwyn ar y plan a adneuwyd.

**Cau Priffyrdd a Mynedfeydd Preifat**

3. Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni:-

(1) parthed pob darn neu ran o briffordd y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei gau neu ei chau, bod llwybr arall rhesymol o gyfleus ar gael, neu y darperir llwybr arall o'r fath, cyn i'r darn hwnnw o'r gefnffordd gael ei gau; a

(2) parthed pob mynedfa breifat i fangre yr awdurdodir ei chau gan y Gorchymyn hwn, bod mynedfa arall i'r fangre berthnasol, sy'n rhesymol o hwylus, ar gael, neu y darperir mynedfa arall o'r fath cyn i'r fynedfa breifat honno gael ei chau, neu nad oes angen rhesymol am fynedfa newydd i'r fangre berthnasol.

**Trosglwyddo Priffyrdd Newydd**

4. Mae pob priffordd newydd i gael ei throsglwyddo i Gyngor Sir Fynwy neu Gyngor

Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ôl fel y dangosir yn yr Atodlen a enwyd, o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Cyngor bod y briffordd wedi ei chwblhau a'i bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

5. Yn union ar ôl trosglwyddo priffordd newydd y dangosir dosbarthiad ar ei chyfer yn yr Atodlen berthnasol gyferbyn â llythyren gyfeirnod y briffordd newydd honno, dosberthir y briffordd honno yn unol â'r dosbarthiad hwnnw.

6. Pan fo darpariaeth wedi ei gwneud yn y Gorchymyn hwn:-

a. i drosglwyddo priffordd newydd i Gyngor Sir Fynwy neu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
neu
b. i alluogi Gweinidogion Cymru i newid priffordd sydd wedi ei breinio yng Nghyngor Sir Fynwy neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

yna (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 268(3) o Ddeddf 1980) trosglwyddir i'r Cynghorau a enwyd ar ddyddiad trosglwyddo'r briffordd honno neu adeg cwblhau'r gweithiau neu'r newid, neu ar ddyddiad caffael y tir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu'r newid i briffordd, os yw'n ddiweddarach, unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau (ac eithrio benthyciadau neu ffioedd am fenthyciadau) sydd wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru, neu a dynnwyd ganddynt mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu'r newid i briffordd, yn ôl fel y digwydd.

**Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr**

7. Os bydd, yn union cyn cau darn neu ran o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw offer ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr cysylltiadau cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd, neu ar ei thraws, yna, yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf 1980, bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr hynny yr un hawliau o hyd o ran yr offer hwnnw ar ôl i'r cau ddigwydd ag a oedd ganddynt yn union cyn hynny.

**Dehongli**

8. Yn y Gorchymyn hwn:

(1) mesurir pob mesuriad pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu’r fynedfa berthnasol i fangre, yn ôl fel y digwydd;

(2) (i.) mae “gwella” (*“improvement”*) mewn perthynas â phriffordd yn cynnwys codi, gostwng neu newid y briffordd honno mewn modd arall, a rhaid dehongli “sydd i’w gwella” yn unol â hynny;

(ii.) ystyr “priffordd newydd” (*“new highway”*) yw priffordd y mae’r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei hadeiladu, a rhaid dehongli “priffyrdd newydd” (*“new highways”*) yn unol â hynny;

(iii.) ystyr “prif ffordd” (*“principal road”*) fel dosbarthiad ar gyfer priffordd newydd yw fod y briffordd dan sylw yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau sy’n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd yn brif ffyrdd, ac ei bod yn ffordd ddosbarthiadol at ddibenion pob deddfiad ac offeryn arall sy’n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir gan Weinidogion Cymru;

(iv.) ystyr “y plan a adneuwyd” (*“the deposited plan”*) yw’r plan sy’n cynnwys y planiau safle a rifwyd 1 i 6 ac a gynhwysir yn y ffolio planiau a rifwyd HA14/1 WG10 ac a farciwyd “Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i’r Fenni (yr A465) (Deuoli o’r Fenni i Hirwaun a’r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i’r Dwyrain o Abercynon i Fan i’r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Gilwern i Fryn-mawr) (Ffyrdd Ymyl) 2014" a’r plan hwnnw wedi ei lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru a’i adneuo (cyf qA1042719) yn swyddfa Llywodraeth Cymru, Yr Uned Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;

(v.) ystyr “y plan safle” (*“the site plan”*) yw un o’r planiau safle sydd wedi eu rhifo 1 to 6 a geir yn y ffolio planiau a rifwyd HA14/1 WG10 ac y cyfeirir ato fel “y plan a adneuwyd” ym mharagraff (iv.) uchod o’r erthygl hon;

(vi.) ystyr "y gefnffordd (A465)" (*"the trunk road"*) yw Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465);

(vii.) ystyr "y gefnffordd newydd" ("*the new trunk road"*) yw'r gefnffordd sydd i'w hadeiladu yn unol â "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999" fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012**(3)** ac fel y'i diwygiwyd ymhellach gan Orchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, (Gilwern i Fryn-mawr) (Diwygio) 2014";

(viii) ystyr "ffordd ddiddosbarth" ("*unclassified road"*) yw priffordd nad yw'n brif ffordd nac yn ffordd ddosbarthiadol nac yn llwybr troed nac yn llwybr beicio nac yn llwybr ceffylau nac yn gilffordd gyfyngedig ac sydd heb unrhyw ddosbarthiad ffurfiol;

(ix) ystyr "cilffordd gyfyngedig" (*"restricted byway"*) yw priffordd lle y mae gan y cyhoedd hawl tramwy ar droed, ar gefn ceffyl, neu wrth arwain ceffyl, hawl beicio a hawl tramwy ar gyfer unrhyw gerbydau ac eithrio cerbydau a yrrir yn fecanyddol.

**Enwi a Chychwyn**

9. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Hydref 2014 a'i enw fydd "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r

Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Gilwern i Fryn-mawr) (Ffyrdd Ymyl) 2014".

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru.

Dyddiedig 06 Hydref 2014

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(**1**) 1980 p.66
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3**) O.S. 1999/2720 ac O.S. 2012/2092.